
# Cyngor Lles a Chwaraeon

## Ysgol Betws Gwerful Goch




# Sport and Wellbeing

# LLYSGENHADON CHWARAEON/ SPORTS AMBASSADORS



Helo fy enw i ydi Tirion. Rydw i yn gadeirydd ein Cyngor lles ac yn llysgenad chwaraeon yr ysgol. Rydw i yn edrych ymlaen i gefnogi y banc bwyd ac edrych ar ol plant yr ysgol a'r gymuned. Rydw i'n hoffi chwarae pel droed ac yn cefnogi Lerpwl! Rydw i'n edrych ymlaen at rannu syniadau ar sut i sicrhau bod plant yr ysgol yn hapus gyda staff yr ysgol. Rwyf hefyd yn edrych ymlaen at drefnu gweithgareddau chwaraeon amrywiol a gwahodd arbenigwyr i gynnal sesiynau amrywiol yn yr ysgol.

Rydw i'n hynod o falch ein bod ni wedi prynu adnoddau newydd i'r plant chwarae gyda nhw yn ystod amseroedd chwarae er mwyn datblygu eu sgiliau pel, sgiliau cydweithio a llawer mwy.

# LLYSGENHADON LLES/ WELLBEINGAMBASSADORS

Ni sydd yn sicrhau llesiant pob un plentyn yn yr Ysgol.  Rydym yn rhannu holiaduron yn ystod hanner tymor un er mwyn gweld sut mae'r plant yn teimlo am eu hysgol nhw.

Byddwn yn edrych ar ganlyniadau'r holiaduron ac yn rhannu syniadau gyda'n gilydd ar sut i sicrhau fod pawb yn hapus ac yn teimlo'n gartrefol yn Ysgol Betws Gwerful Goch.

Edrychwn ymlaen i roi pethau yn eu lle ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

We ensure the wellbeing of every child in School. Questionnaires are shared during the first half term to see how the children feel about their school.

We will look at the results of the questionnaires and share ideas with each other to ensure that everyone is happy and cared for in Ysgol Betws Gwerful Goch.

We look forward to put things in place for the year ahead.

# LLYSGENHADON CHWARAEON/ SPORTS AMBASSADORS

Rydym ni yn arwain sesiynau chwaraeon gyda phlant yr ysgol ac yn trefnu gweithgareddau hwylus ar gyfer ein clwb wythnosol.

Yn ddiweddar, rydym yn rhannu syniadau er mwyn datblygu ein sgiliau arweinyddiaeth a chasglu syniadau ar sut i ddatblygu chwaraeon yn yr ysgol ac rydym yn hynod o gyffrous i roi ein syniadau ar waith. Rydym yn cyfarfod unwaith bob hanner tymor er mwyn rhannu ein syniadau gyda'r uwch dim rheoli ac am gysylltu gyda phobl lleol yr ardal er mwyn gwahodd nhw i mewn i'r ysgol a chynnal sesiynau chwaraeon i'n dysgwyr er mwyn rhoi blas ar wahanol chwaraeon i ddysgwyr ein hysgol.

We lead sports sessions with the school children and organise exciting activities for our after school club.

Recently we have gathered ideas and we are extremely excited to put some of the ideas into practice. We meet once every half term in order to share our ideas with the senior management and to connect with local people in the area in order to invite them into the school and hold sports sessions for our learners in order to give them a taste of different sports for our school's students.

# LLYSGENHADON LLES/ WELLBEING AMBASSADORS

Mae'r llysgenhadon chwaraeon hefyd yn gynrychiolwyr sydd yn cyd-weithio i ddatblygu lles ar draws yr ysgol. Byddent yn sicrhau ffocws benodol ar wrth-fwlio, iechyd meddwl a diogelwch ar-lein.
Maent yn ddisgyblion sydd yn sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo iechyd meddwl a lles cadarnhaol. Mae'r disgyblion yn awyddus i rannu eu dysgu ynghylch iechyd meddwl a hysbysebu pwysigrwydd hunanofal. Maent yn meddu ar agwedd agored ac anfeirniadol ac yn mabwysiadu dull cadarnhaol ac amyneddgar gyda disgyblion yr ysgol. Maent yn fodel rôl cadarnhaol sydd bob amser yn barod i wrando.

Our sports ambassadors are also representatives who work together to develop well-being across the school. They will strive to ensure focus on anti-bullying, mental health and online safety.
They are pupils who ensure that the school promotes mental health and positive well-being. The pupils are keen to share their learning about mental health and advertise the importance of self-care. They have an open and non-judgmental attitude and adopt a positive and patient approach with the school's pupils. They are a positive role model who are always willing to listen.

# LLYSGENHADON LLES/ WELLBEING AMBASSADORS

## Ein nod

Sicrhau fod pawb yn hapus o fewn cymuned Ysgol Betws Gwerful Goch

·Rhannu negeseuon positif

·Cyd-weithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru

·Rhannu eu hamcanion yn y gwasanaethau

·Creu Calendr Cyfeillgarwch

·Cynorthwyo gyda threfniannau Dydd Gwener Gwyrdd

·Trefnu diwrnod Meddylfryd Twf

## Our Aim

- Ensuring that everyone is happy within the Ysgol Betws Gwerful Goch community
- Share positive messages
- Collaborate with the Children's Commissioner for Wales
- Share their objectives in the services
- Create a Friendship Calendar
- Assist with Green Friday arrangements
- Organise a Growth Mindset day